Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: Mesurau arbennig

**Ysgol Betws y Coed**
**Bro Gethun**
**Betws-Y-Coed**
**Conwy**
**LL24 0BP**

**Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Helen Morgan-Rees | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Betws y Coed wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Hydref 2010.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o unrhyw weithgarwch dilynol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Parhau i godi safonau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaeth gadarn ag ysgolion o fewn y dalgylch i ddatblygu cynlluniau iaith priodol er mwyn codi safonau llythrennedd yn yr ysgol. Mae'r cydweithio effeithiol hwn wedi arwain at gyd-gynllunio bwriadus er mwyn ceisio ysgogi diddordeb y disgyblion, cyfoethogi eu profiadau ac anelu at sicrhau bod y cwricwlwm iaith yn cael ei gyflwyno'n llawn. Mae'r cynlluniau gwaith yn nodi cyfleoedd priodol i ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau ar draws y cwricwlwm.

Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 bellach yn gwneud cynnydd da yn eu gwaith ysgrifenedig. Maent yn ysgrifennu'n feddylgar ar draws ystod o destunau, gan ddefnyddio cystrawennau cywir yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion sydd yn defnyddio llawysgrifen glwm.

Mae bron pob disgybl ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn ysgrifennu'n estynedig mewn modd trefnus ac yn y cywair priodol mewn dyddiaduron, llythyron a darnau dwyn perswâd.

Mae gwaith ysgrifenedig yn cael ei wahaniaethu'n bwrpasol ond nid yw'n llwyddo bob tro i gwrdd ag anghenion dysgu unigol lleiafrif o ddisgyblion.

### Argymhelliad 2: Gwella'r addysgu yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig datblygu medrau meddwl y disgyblion a'u datblygiad fel dysgwyr annibynnol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mewn ymdrech i godi safon yr addysgu, mae staff yr ysgol wedi ymweld ag ysgolion y dalgylch a thu hwnt i arsylwi arfer dda. Trwy fodelu gwersi a monitro rheolaidd gan y pennaeth a'r awdurdod, bu gwelliant clir yn ansawdd yr addysgu.

Mae'r staff yn cynllunio gwersi sydd yn adeiladu'n briodol ar brofiadau blaenorol. Mae medrau meddwl yn derbyn sylw priodol mewn gwersi a darperir cyfleoedd addas i ddisgyblion weithio'n annibynnol mewn grwpiau bychain. Mae'r gwersi yn ymestyn disgyblion o allu uwch yn effeithiol ond nid yw'r addysgu bob tro yn sicrhau bod disgyblion llai galluog yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent.

Mae amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu'n briodol gyda'r disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf bob amser yn cyd-fynd yn llawn â'r amcanion.  Mae cwestiynu effeithiol yn arwain at gyfranogiad y mwyafrif o'r disgyblion yn y gweithgreddau dysgu.

**Argymhelliad 3:  Cryfhau'r prosesau hunan-arfarnu, yn enwedig ansawdd adroddiadau monitro a'r defnydd o ddata i fesur perfformiad**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r broses hunanarfarnu bellach yn effeithiol ac yn adnabod yn glir y meysydd i'w datblygu o fewn yr ysgol.  Defnyddir ystod dda o weithgareddau monitro priodol, gan gynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion.  Caiff holl randdeiliaid yr ysgol gyfle i gyfrannu i'r broses o greu trosolwg arfarnol o'r ysgol.

Mae'r pennaeth yn arsylwi ar yr addysgu a'r dysgu yn rheolaidd ac yn cydweithio â swyddog yr awdurdod lleol a'r llywodraethwyr i sicrhau cysondeb.  Defnyddir y dystiolaeth hon yn effeithiol ar gyfer mesur cynnydd ar sail gweithredu ar argymhellion yr arolygiad ac yn sail i osod targedau addas yn y cynllun datblygu ysgol.

Trwy gyfrwng y broses hon, mae'r ysgol a'r corff llywodraethwyr yn adnabod cryfderau ac yn ymwybodol o'r meysydd i'w datblygu.  Mae eu dealltwriaeth o ddata'r ysgol yn datblygu'n dda ynghyd â'u gallu i herio'r ysgol mewn perthynas â pherfformiad a chyflawniadau disgyblion.

**Argymhelliad 4:  Datblygu'r prosesau asesu, gyda sylw arbennig i ansawdd y marcio, defnydd o wybodaeth tracio cynnydd a sicrhau dilysrwydd asesiadau athrawon**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd.  Mae'r sylwadau yn cyfeirio'n benodol tuag at yr hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella safon eu gwaith.  Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion asesu gwaith eu hunain yn erbyn disgrifiadau lefel a nodi'r hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith.  Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyflawniadau'r disgyblion.

Mae'r ysgol wedi creu proffiliau o waith disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer diwedd cyfnod allweddol 2.  Mae hefyd wedi creu portffolio datblygiad personol a chymdeithasol yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae'r ysgol yn cyd-safoni gwaith gyda'r ddwy ysgol arall o fewn y clwstwr.  Mae hyn wedi cryfhau adnabyddiaeth yr athrawon o feini prawf lefelau a deilliannau ac wedi atgyfnerthu gallu athrawon i fod yn fwy cywir wrth lefelu gwaith y disgyblion.

Mae system asesu'r ysgol yn cynnwys gwybodaeth am gyrhaeddiad pob disgybl mewn rhifedd a llythrennedd yn seiliedig ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen a lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol.  Dadansoddir y wybodaeth yn effeithiol er mwyn targedu disgyblion ar gyfer darparu cymorth ychwanegol.  Mae'r ysgol yn gosod targedau meintiol heriol ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae system electronig yr ysgol ar gyfer olrain cynnydd unigolion yn galluogi athrawon i ddechrau darparu'n wahaniaethol ar gyfer carfannau gwahanol o ddisgyblion.

**Argymhelliad 5: Datblygu rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Derbynia'r corff adroddiadau cynhwysfawr, yn seiliedig ar dri chwestiwn allweddol fframwaith Estyn, yn dymhorol gan y pennaeth ac aelodau'r gweithgor data. O dan arweiniad effeithiol y pennaeth, mae dealltwriaeth y llywodraethwyr am berfformiad yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae hyn yn galluogi'r corff llywodraethol i drafod a herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad a gweithredu'n effeithiol fel 'cyfaill beirniadol.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r corff llywodraethol i drafod gweithrediad y cynllun ôl-arolygiad. Mae ymdrechion yr ysgol i godi safonau yn eitem gyson ar raglen y cyfarfodydd hyn.

Lluniwyd is-bwyllgorau priodol gan gynnwys is-bwyllgor data. Mae'r pwyllgor hwn yn gyfrifol am dderbyn a dadansoddi data ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae cynrychiolaeth o'r llywodraethwyr yn ymwelwyr cyson â'r ysgol fel rhan o'r broses fonitro. Gwahoddir hwy i mewn i arsylwi gwersi ar ôl penderfynu ar ffocws penodol, ac mae'r corff llawn yn derbyn adroddiad manwl yn dilyn yr ymweliadau.

**Argymhelliad 6: Mynd i'r afael â'r diffygion yn y trefniadau diogelu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r diffygion yn nhrefniadau diogelu'r ysgol.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal a gwella ar y cynnydd hwn, dylai'r ysgol barhau i weithio ar yr argymhellion sydd heb eu cyflawni'n llawn hyd yma.